# SGILIAU A MENTORA
## Medi – Tachwedd 2017

### Statws RAG
■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

### Hyfforddiant ■


Gweler dadansoddiad fesul categori hyfforddiant isod:

| Categori | Nifer y Ceisiadau wedi'u 'Cymeradwyo' |
|---|---|
| Categori 1 – Gwella'r Busnes | 68 |
| Categori 2 – Technegol | 186 |
| Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer | 112 |
| CYFANSWM | 366 |


Yng Nghategori 1, y cyrsiau gyda'r mwyafrif o geisiadau oedd y cyrsiau Cynllunio Busnes a Datblygu a Marchnata eich Busnes. Yng Nghategori 2, y cwrs gyda'r nifer uchaf o geisiadau wedi'u cymeradwyo oedd y cwrs Rheoli Cnofilod ar Ffermydd ac yna'r cwrs AI. Bu hefyd nifer uchel o geisiadau ar gyfer Cneifio Defaid gyda Pheiriant o fewn y cyfnod hwn. Mae hyfforddiant sy'n ymwneud â phladdwyr yn parhau i fod yn boblogaidd yng Nghategori 3.

### Ystadegau Ymgeisio

Mae'r dadansoddiad a roddir yn y graff isod yn dangos nifer y ceisiadau a gymeradwywyd fesul amrediad oedran.




Mae'r dadansoddiad a roddir yn y graff isod yn dangos y nifer o gleientiaid gwryw / benyw a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod hwn fesul categori hyfforddiant.




### CDP

Ers dechrau'r rhaglen mae cyfanswm o 3,391 cleient wedi cwblhau Cynllun Datblygu Personol. Creuwyd 288 CDP newydd yn ystod y cyfnod hwn.

### E-ddysgu

Mae cyfanswm o 38 cwrs e-ddysgu bellach ar gael ar wefan BOSS a chafodd 128 cwrs eu cwblhau yn ystod y cyfnod hwn.

| Teitl y Cwrs | Nifer y Cyrsiau a Gwblhawyd |
|---|---|
| Iechyd a Diogelwch | 110 |
| Rheoli Pori | 5 |
| Adnabod Coed: Coed Collddail | 4 |
| Mae cyrsiau eraill a gwblhawyd yn cynnwys Cynllunio Busnes, Bioddiogelwch, Paratoi Cyllideb Fwyd dros y Gaeaf, Cyllid Fferm, Rheoli Ysgall, Rheoli Llyngyr yr Iau ar Fferm ac Ymwrthedd Anthelmitig ar Ffermydd Defaid. | 9 |
| CYFANSWM | 128 |

### Agrisgôp ■

**39** GRŴP GWEITHREDOL gyda **396** AELOD yn mynychu cyfanswm o **55** CYFARFOD

#### Pynciau Trafod

**Hwsmonaeth Defaid Llaeth Arallgyfeirio Twristiaeth ar-Fferm Glampio Pŵer y Cyfryngau Cymdeithasol Plannu a Rheoli Coetir Marchnata Digidol Lleol Rheoli Glaswelltir Paratoi ar gyfer Brexit Siediau Buchod Godro Arweinyddiaeth Cynnyrch Cig Oen – Proffil y Cwsmer a Thueddiadau Presennol Marchnata a Brandio Gwerth Pridd**

#### Astudiaethau Achos

Mae'n amser cyffrous i wyth o gynhyrchwyr defaid yng Ngogledd Cymru sy'n gobeithio elwa ar y farchnad 'prydau parod' cynyddol. Daeth y grŵp, sydd bellach wedi mabwysiadu'r enw 'Ffermydd Teuluol' fel brand, at ei gilydd am y tro cyntaf y llynedd, diolch i gymorth gan raglen Agrisgôp Cyswllt Ffermio.



Cliciwch yma i ddysgu mwy.


Mae Alan Jones, y drydedd genhedlaeth o'r teulu i ffermio, ei wraig Bethan a'i ddau fab, Osian a Morgan yn ffermio ar ddaliad 230 erw yn Chwilog. Yn ddiweddar sefydlodd y teulu ail fenter yn cynhyrchu llaeth defaid ar gyfer cawsiau sy'n cael eu gwneud â llaw o'u diadell gymysg o 20 o ddefaid Friesland ac 8 o ddefaid Lleyn. Dywed y teulu na fydden nhw wedi mentro heb y cymorth a dderbyniwyd trwy un o grwpiau Agrisgôp Cyswllt Ffermio.



Cliciwch yma i ddarllen mwy am eu menter newydd.

## Academi Amaeth

### Rhaglen Busnes ac Arloesedd: Penwythnos 2



**Y Swistir**
15-18 Hydref 2017


| Cafwyd siaradwyr gwadd a gweithgareddau yn cynnwys: |
|---|
| Arloesedd mewn Busnes |
| Technoleg AlpTracker |
| Amaethyddiaeth ôl-Brexit |
| Cyfarfod gyda chynrychiolydd Hybu Cig Cymru yn y Swistir |
| Undebau Ffermio Swistirol – Trosolwg o Amaethyddiaeth y Swistir |
| Syngenta – Biotechnoleg |
| Bragdy |
| *Cryptocurrency* |
| Ymweliad â Fferm Laeth a Ffrwythau |
| Ymweliad â GVFI – mewnforwyr cig mwyaf blaenllaw'r Swistir |





Cliciwch yma i ddarllen am y gwersi a ddysgwyd o'r Swistir.

### Rhaglen yr Ifanc: Penwythnos 3




**Iwerddon**
31 Hydref – 2 Tachwedd 2017

| Cafwyd siaradwyr gwadd a gweithgareddau yn cynnwys: |
|---|
| Lorna Sixsmith, Awdur a Blogiwr |
| Canolfan Ymchwil Teagasc |
| Ymweliadau â Ffermydd Llaeth, Bîff a Defaid |
| Ballyminane Mill |
| Derrie Dillon – Brexit a Llwybrau i'r Farchnad |



### Rhaglen Arweinyddiaeth Wledig: Penwythnos 2



**Brwsel**
5-8 Tachwedd 2017

| Cafwyd siaradwyr gwadd a gweithgareddau yn cynnwys: |
|---|
| Katie Jarvis, Ymgynghorwr Polisi Ewropeaidd yr NFU |
| Lisa Penny, Llywodraeth Cymru – Enwau Bwyd Gwarchodedig yr UE |
| Nia Lewis, Pennaeth Datblygu Polisi Economaidd ym Mrwsel |
| Ysgrifennydd DEFRA George Eustace – Ysgrifennydd Gwladol yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) |
| Frances Brockie, Ail Ysgrifennydd ar gyfer y Genhadaeth Seland Newydd – 'Sut mae gwledydd tu allan yr UE yn cynrychioli eu diddordebau gwledig ac amaethyddol o fewn yr UE' |
| Nicola Hinder (Cynghorwr Amaethyddol) yn Llysgenhadaeth Awstralia |
| Chris Miles, Pennaeth Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Bwyd yn Swyddfa UE Llywodraeth Cymru |
| Derek Vaughan ac ASE eraill yn y Senedd Ewropoeaidd |
| Cyfle i arsylwi'r Cytundeb Masnachu UE-Mercosur: Beth nesaf i sectorau amaethyddol sensitif Ewrop, gyda siaradwyr o'r Comisiwn, rhanddeiliaid ffermio ac arbenigwyr o'r diwydiant |
| Owen Jones, Pennaeth yr Uned Cymorth Uniongyrchol, DG Agri |
| Tom Jones o EESC yn trafod ei waith yn yr EESC a'r Adran Materion Amaethyddol, Gwledig ac Amgylcheddol |
| Prif Weithredwr Rural Link Iwerddon |
| Prif Weithredwr CEJA |
| Siaradwr o Denen yn cynrychioli mudiadau pobl ifanc Danaidd |
| Siaradwr ar Gytundeb Norwy gyda'r UE |



### Rhaglen Busnes ac Arloesedd: Penwythnos 3



**Gogledd Cymru**
17-19 Tachwedd 2017

| Cafwyd siaradwyr gwadd a gweithgareddau yn cynnwys: |
|---|
| Sion Roberts – Cadw cyfrifon, Strwythur Busnes a Meddylfryd |
| Ben Hellfield – Beth yw brand? |
| Haciau Fferm |
| Pŵer y Cyfryngau Cymdeithasol |
| Her Busnes ac Arloesedd |



Huw Jones yn cyflwyno ei weledigaeth i'r panel o feirniaid.

## Seremoni'r Academi Amaeth yn y Ffair Aeaf



Enillodd Huw wobr 1af yr Her Busnes ac Arloesedd.
Cliciwch yma i ddarllen mwy.





Cafodd ffilm a gynhyrchwyd gan yr Academi Arweinyddiaeth Wledig yn amlinellu eu hardaloedd ffocws blaenoriaeth ar gyfer rhanddeiliaid ei ddangos yn ystod y seremoni. Cliciwch ar y sgrîn deledu i wylio.

Derbyniodd yr Academi lau eu tystysgrifau diwedd blwyddyn hefyd.


## Cyfnewidfa Rheolaeth

**Richard Roderick**
Lleoliad: Aberhonddu
Cyrchfan: Yr Alban a Gogledd Lloegr
Pwnc: Ymchwilio i Gynhyrchu Gwartheg Magu yn Broffidiol, ar sail y defnydd mwyaf posibl o borthiant.



Cliciwch yma i ddarllen adroddiad cyfnewidfa Richard.

## Mentora



**97**
MENTAI WEDI CAEL EU MENTORA

**13**
MENTAI NEWYDD

**35%**
O DARGED Y RHAGLEN WEDI'I GYFLAWNI

### Astudiaeth Achos

Siaradodd Bryony Gittins o'r Fenni yn uchel iawn am ei phrofiad mentora gyda Ben Anthony ac roedd hi'n teimlo'n bositif iawn am y manteision y gallai'r rhaglen gynnig iddi hi a'i busnes. Dewisodd Bryony Ben i'w mentora ar gynyddu stoc, gwella rheolaeth ar bori a chynyddu ei lefel sgiliau fel prif ddeiliad newydd y fferm.

Cliciwch yma i ddarllen mwy am brofiad Bryony a gwyliwch y fideo isod.






### Rhai o uchafbwyntiau ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ar lein:

Facebook 14/11/2017

> *"Fe wnaeth Dad fy nghynghori i gofrestru gyda Cyswllt Ffermio, ac yn fuan fe welais gymaint o arweiniad a chefnogaeth sydd ar gael, y rhan fwyaf ohono wedi ei ariannu'n llawn neu gyda chymhorthdal sylweddol.*
> *Dwi'n cofio ymuno â chyrsiau busnes Cyswllt Ffermio flynyddoedd yn ôl, pan wnaethom sefydlu'r fenter ferlota gyntaf, ac rwyf yn dal i ddefnyddio'r sgiliau hynny heddiw, felly doedd dim llawer o waith darbwyllo arnaf." #ydiweddara*

Pobl a Gyrhaeddwyd: **3,493**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu: **65**

Facebook 27/11/2017
Safon uchel iawn wedi'i gyrraedd yn Sialens Busnes ac Arloesedd Academi Amaeth: Creu cynllun pum mlynedd i ffarm fernhill, ger Briste. Llongyfarchiadau Huw Jones!

Pobl a Gyrhaeddwyd: **4,616**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu: **53**

Twitter 27/11/2017

> *'Good ideas, lateral thinking, good presentation for a plan, and met client's need'*

Congratulations to Huw Jones: Winner of the Business and Innovation Academy Challenge! Llongyfarchiadau i Huw Jones ar ennill Sialens Busnes ac Arloesedd yr Academi!

Pobl a Gyrhaeddwyd: **1,207**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu: **61**

Twitter 27/11/2017
Rural leadership members discussing the important factors in agri industry: community, family, employment, animal welfare...showing that agriculture is a v broad industry.

Pobl a Gyrhaeddwyd: **1,000**
Hoffi, Sylwadau a Rhannu: **61**